

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 9 Gorffennaf 2012 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)
Cyng. Islwyn Iago
Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Auriol Williams (Is-Gadeirydd)
Cyng. Llinos Price
Cyng. Des Davies
Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i'r cyfarfod. Aethpwyd ymlaen i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Haydn Lewis, Ann Stokoe, Huw Jones, Lyn Jones.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Islwyn Iago ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Mehefin yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim

5. Materion yn codi:

Meinciau yng Ngolygfan y Gwbert: Mae'r Clerc yn dal i chwilio i mewn i berchnogaeth y meinciau.

Highcliff, Gwbert: Yn dilyn cyfres o gwynion yn ymwneud â'r dramwyfa sydd yn ymestyn tu hwnt i'r ffin yn ymyl Highcliff, gofynnwyd i'r Clerc hel gwybodaeth ynglŷn â'r llythyr anfonwyd at y Cyngor Sir ym mis Mai. Cafwyd cadarnhad y byddai'r swyddogion perthnasol yn archwilio'r sefyllfa. Mae'r Cyng. Haydn Lewis (aelod lleol Cyngor Sir Ceredigion) wedi danfon llythyr at y Cyngor Sir ynglŷn â hyn. Mae copi o'r llythyr gan y Clerc (**gweler eitem 9, rhif 55**). **Derbyniwyd copi o'r llythyr anfonwyd gan y Cyngor Sir i berchennog Highcliff yn dweud fod mis ganddo i ail-leoli'r dramwyfa; os na fydd y perchennog yn cydymffurfio â'r cais, bydd y Cyngor Sir yn cyflawni'r gwaith ac yn anfon cyfrif iddo.**

Mewnfudwyr i Geredigion: Mae'r Cyng. Haydn Lewis wedi danfon llythyr at y Cyngor Sir yn gofyn am yr wybodaeth ynglŷn â mewnfudwyr. Gofynnwyd iddynt ymateb i'r Clerc.

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais.)

7. Cynllunio

Gan fod y Cadeirydd yn datgan diddordeb ar gais A120399, cymerwyd y gadair gan y Cyng. Llinos Price.

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau
A120399	Llys-yr-Ynys, Cardigan Island coastal Farm Park. "Two free standing 28' x 9' portacabins for camping and caravan club site. 1. Toilets and showers. 2. Washing-up facilities, electric meters and water tanks.	Mae'r Cyngor yn cefnogi'r datblygiad mewn egwyddor, ond mae'n gofidio bod y cais wedi ei wneud yn adolygol, ac ni chadwyd at y drefniadaeth arferol. Ôl-nodiad: Gofynnwyd i'r clerch wahodd swyddog o'r Adran Gynllunio i egluro canllawiau ynglŷn â cheisiadau o'r math yma.
A120455	Brynhyfryd, Ferwig: Replacement extension to rear of property with bedroom above.	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Datganiad diddordeb:

Cais A120399. Y Cyngorwyr Dilwyn Jenkins, Auriol Williams.

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Gorffennaf 2012.

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A120265	Mrs M. Davies, Greenore, Tremain. Codi Annedd	Wedi ei wrthod.

Cyfarfod Safle. Ni chynhelir cyfarfod safle yn ystod y mis.

8. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

CFfi Penparc (Tâl am lanhau'r Ystafelloedd Newid 5-3-12 i 5-6-12)	101234	£216.00
Hildreth Owen (Cyflog net y Clerc, Ebrill – Mehefin)	101235	£860.20
Treuliau'r Clerc (Ebrill – Mehefin)	101235	£160.85
Cyllid a Thollau EM (Treth Incwm Ebrill – Mehefin)	101236	£214.80
SWALEC (Trydan Ystafelloedd Newid Ystafell Berkley)	101237	£12.38
Mr John Morris (Torri'r borfa: 6 mis)	101238	£427.20

Cynigiwyd gan y Cyng Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim.

Materion ariannol eraill:

Cyflwyniad o Adran 3 o'r Ffurflen Flynyddol (Cyngorau Lleol Cymru) ar gyfer y flwyddyn 31 Mawrth 2012 ac Adroddiad yr Archwilydd Allanol, BDO.

Ardystiodd y clerch bod y datganiadau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y Ffurflen Flynyddol yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y cyngor ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, fod y datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol wedi'u cymeradwyo gan y cyngor o dan gyfeirnod cofnodion y cyngor tudalen 681, eitem 8.

Arwyddwyd Adran 3 (Ardystio a chymeradwyo) gan y clerch a'r Cadeirydd.

Cynigiwyd bod y cyngor yn derbyn yr uchod gan y Cyng Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng Auriol Williams

9. Gohebiaeth:

45	Gŵyl Fawr Aberteifi	Derbynneb am rodd ariannol y Cyngor	Nodwyd. Diolchodd y Cadeirydd am docynnau dderbyniwyd i fynychu'r Ŵyl.
46	Un Llais Cymru	Agenda o gyfarfod Blynyddol o Bwyllgor Ardal Ceredigion ar 27 Mehefin 2012 a chofnodion Cyfarfod Pwyllgor gynhaliwyd 14/3/12.	Nodwyd
47	BDO	Tystysgrif Archwilio Arfaethedig	Gweler eitem 8
48	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Priffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyron ynglŷn ag arwydd "Wyneb dros dro" ger y Bigni ac angen ailosod arwydd ar sgwâr Brongwyn	Mae'r ddau eitem yma wedi eu cyflawni.
49	Un Llais Cymru	Ymateb i lythyr y Cyngor ynglŷn â chyfraniad ariannol oddi wrth Hen Ysgol y Ferwig tuag at brosiect "Balchder Pentrefi".	Gweler eitem 10 Copi o'r llythyr wedi ei e-bostio i aelodau'r Is-bwyllgor "Balchder Pentrefi."

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

50	Ombwdsmon	Adroddiad Blynyddol 2011-12	Copi ar gael gan y Clerc.
51	Cyngor Sir Ceredigion	Gwahoddiad i Gadeirydd y Cyngor a'i Gyfarfod i Wasanaeth Sifig Cadeirydd y Cyngor Sir ddydd Sul, 22 Gorffennaf 2012 yng Nghapel Mair, Aberteifi.	Y Clerc wedi danfon ateb cadarnhaol at y Cyngor Sir.
52	Prifysgol Fetropolitan Abertawe	Holiadur ynglŷn â Gwaith Ymchwil ar Lywodraethwyr Cymuned Ychwanegol	Y clerch i ddelio gyda hwn.
53	Cantref	Hysbyseb o'r Cyfarfod Blynyddol nos Iau, 19 Gorffennaf 2012	Nodwyd.
54	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Prifffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyr ynglŷn â chael bin wedi ei leoli yng Ngolygfan Gwbert	Nodwyd.
55	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Prifffyrdd)	Ymateb i gwynion ynglŷn â'r dramwyfa sydd yn ymestyn tu hwnt i'r ffin yn ymyl Highcliff	Copi o'r llythyr anfonwyd at y perchennog (gweler eitem 5)
56	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai)	Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022) diweddariad.	Nodwyd. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu â Mrs Doreen Thomas er mwyn sicrhau ei bod wedi derbyn copi o'r diweddariad. (Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Auriol Williams a gadawodd y cyfarfod)
57	Mr Wynne Evans	Llythyr ynglŷn â gosod arwyddion ar y traeth yn hysbysu bod toiledau yn y Clwb Cychod.	Gofynnwyd i'r clerch gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â hyn. Copi o'r llythyr wedi ei ddanfoni i Mr Evans.

10. Materion Eraill / Other Matters.

Balchder Pentrefi: Awgrymiadau:

Bwrdd Gwybodaeth i'w leoli ar safle yn y gymuned.

Gwella'r fynedfa i Hen Ysgol y Ferwig.

Mae'r Is-bwyllgor wedi symud ymlaen gyda'r prosiect. Gofynnwyd i'r Clerch gysylltu ag Un Llais Cymru ynglŷn â chanllawiau ar dderbyn rhodd ariannol oddi wrth "Hen Ysgol y Ferwig" tuag at ledaenu mynedfa'r ysgol (**gweler rhif 9, eitem 49**).

Dywedodd y Cyng. Auriol Williams bod yr Is-bwyllgor yn danfon llythyr at Mr Neale Hinchcliffe yn amlinellu cynlluniau'r is-bwyllgor er mwyn gwneud cais at gynllun Balchder Pentrefi. Hysbyswyd ef hefyd bod angen gwneud cais at y Cyngor Sir am ganiatâd i weithredu felly gan ofyn am gyfarfod safle cynted â phosib.

Sbwriel wedi ei adael ar y traeth yn Patch: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn oddi wrth aelod o'r cyhoedd yn achwyn ynglŷn â bagiau baw cŵn ayyb wedi eu gadael ar y traeth yn Patch. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r lleoliad yma a gofynnwyd i'r Clerch gysylltu â'r Warden Cŵn. Ymwelodd ef â'r safle ac addawodd ymateb wedi iddo hel gwybodaeth. Ysgrifennodd ein Cyngorydd Sir Lleol, y Cyng. Haydn Lewis, at bwyllgor Sianel Glir Afon Teifi (mae copi o'r llythyr gyda'r Clerc). Cysylltodd y Clerch gyda'r warden cŵn ar 3 Gorffennaf. Mae'n aros i glywed oddi wrth y Cyngor Sir ynglŷn â'r ffordd ymlaen gyda'r broblem yma.

Hysbysfwrdd Penyparc: Dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins bod angen trwsio'r hysbysfwrdd. Y Clerch i gysylltu â Mr Dyfed Symmons.

Ciosgau Felinwynt a Gwbert: Gofynnwyd i'r Clerch leoli arwydd yn y ddau giosg yn dweud nad ydynt bellach mewn gwasanaeth.

Toriadau cloddiau: Adroddodd y Cyng. Islwyn Iago bod toriadau cloddiau yn cael eu gadael ar y ffordd wedi eu torri. Gofynnwyd i'r Clerch ddanfoni llythyr at y Cyngor Sir i ofyn iddynt eu clirio.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cyffordd Llwynllwyd Fach/Lleine Price: Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r peryg cuddiedig sydd yn wynebu gyrwyr yn gadael lôn Llwynllwyd Fach i'r ffordd. Awgrymwyd y dylid gosod arwydd yn rhybuddio defnyddwyr o hyn.

Maes Carafanau Nantycroi: Derbyniwyd cwyn bod yna ormodaeth o drafnidiaeth yn defnyddio'r lôn o'r Ferwig i faes carafanau Nantycroi. Cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu ag Adran Cynllunio'r Cyngor Sir er mwyn gwahodd swyddog i gyflwyno canllawiau ynglŷn â cheisiadau cynllunio cyffelyb.

Sesiwn "Côd Ymddygiad": Yn dilyn mynychu'r cyfarfod "Côd Ymddygiad", datganodd y Cyng. Dilwyn Jenkins ei fod wedi manteisio ar yr wybodaeth oedd ar gael. Anogodd aelodau'r Cyngor i ddarllen llawlyfr y "Côd Ymddygiad" a ddosbarthwyd iddynt yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor presennol ym mis Mai.

Llwybr newydd o Olygfan y Gwbert i Westy'r Cliff: Yn dilyn cwynion ynglŷn â gordyfiant ar y llwybr yma, awgrymwyd bod y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ei drasio.

Llwybr Ceffyl rhwng Llain y Cwm a Heol Trecefn Isaf: Derbyniodd y Cyng. Auriol Williams gwyn ynglŷn â gordyfiant ar y llwybr hwn. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr John Morris. Addawodd y byddai hyn yn cael ei wneud yn syth.

11. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 3 Medi 2012 yn Ystafell Berkley, Penyparc am 7.30yh.

Gweddill Cyfarfodydd y Cyngor am 2012:

1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F).

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig.

YB = Ystafell Berkley

CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 9 July 2012 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)
Cllr Islwyn Iago
Cllr Eurig Lloyd

Cllr Auriol Williams (Vice-Chairman)
Cllr Llinos Price
Cllr Des Davies
Mrs Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the meeting and then proceeded to discuss the Agenda.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Haydn Lewis, Anne Stokoe, Huw Jones, Lyn Jones
- 3. Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Islwyn Iago and seconded by Cllr Des Davies that the minutes of the June meeting were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** None.
- 5. Matters arising:**
Benches at the Gwbert Viewpoint: The Clerk is continuing her research into ownership of the benches.
Highcliff, Gwbert: Following numerous complaints received regarding the protrusion of the driveway, the Clerk was asked to obtain further information from the County Council regarding this. It was confirmed that the appropriate officers would investigate. Cllr Haydn Lewis (local member of the County Council) has written to the County Council regarding this. A copy of this letter has been forwarded to the Clerk (**see Item 9, no. 55**). **The Clerk has received a copy of the letter sent by the County Council to the owner of Highcliff stating that he has one month to correct the driveway; upon failure to adhere to this request, the County Council would complete the work and invoice the owner.**
Incomers to Ceredigion: Cllr Haydn Lewis has written to the County Council asking for information regarding the financing of incomers to the county. Ceredigion County Council was asked to forward a copy of the reply to the Clerk.
- 6. Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
(Names in italics = accounts forwarded with applications)
- 7. Planning**

As the Chairman had declared interest on Application A120399, Cllr Llinos Price chaired the item.

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Observations</i>
A120399	Llys-yr-Ynys, Cardigan Island coastal Farm Park. "Two free standing 28' x 9' portacabins for camping and caravan club site. 1. Toilets and showers. 2. Washing-up facilities, electric meters and water tanks.	The Council supports the development in principle, but is concerned that the application has been made retrospectively, and that normal procedures have not been adhered to.
A120455	Brynhyfryd, Ferwig: Replacement extension to rear of property with bedroom above.	The Council has no objection.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Declaration of Interest:

Application A120399. Cllrs Dilwyn Jenkins, Auriol Williams.

County Council Planning Meeting : 11 July 2012.

Applications approved or refused by the County Council:

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A120265	Mrs M. Davies, Greenore, Tremain. Erection of a dwelling.	Refused.

Site meeting. No site meeting was held during the month.

8. Financial Matters.

Bills paid:

Penparc YFC (Cleaning of Changing Rooms 5-3-12 to 5-6-12)	101234	£216.00
Hildreth Owen (Clerk's net wages, April – June)	101235	£860.20
Clerk's Expenses (April – June)	101235	£160.85
HM Customs and Excise (Income Tax April – June)	101236	£214.80
SWALEC (Electricity for Changing Rooms, Ystafell Berkley)	101237	£12.38
Mr John Morris (General grass cutting: 6 months)	101238	£427.20

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

Receipts: None.

Other Financial Matters:

The Clerk certified that the accounting statements contained in the Annual Return presents fairly the financial position of the council and its income and expenditure for the year ended 31 March 2012.

The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, confirmed that the accounting statements and Annual Governance Statement were approved by the council under council minute reference page 681, item 8.

Section 3 (Certification and approval) were duly signed by the RFO and the Chairperson.

The council's approval of the above was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Auriol Williams.

9. Correspondence:

45	Gŵyl Fawr Aberteifi	Receipt for donation.	Noted. The Chairman thanked for the tickets received to attend the festival on Saturday evening.
46	One Voice Wales	Agenda of the Annual Meeting of the Ceredigion Area Committee 27 June 2012 and Minutes of the Ordinary Meeting held on 14 March 2012.	Noted.
47	BDO	Proposed audit certificate and opinion	See Item 8
48	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receipt of letters regarding sign "Temporary Surface" near Bigni and the need to readjust the road sign at Brongwyn Square.	These two issues have been dealt with.
49	One Voice Wales	Response to Council's letter regarding financial donation from Hen Ysgol y Ferwig towards the "Balchder Pentrefi" project.	See Item 10 Copy of letter e-mailed to members of the Sub-committee of "Balchder Pentrefi".

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

50	Ombudsman	Annual Report 2011-12	Copy available from the Clerk.
51	Ceredigion County Council.	Invitation for the Chairman and his Partner to attend Ceredigion County Council Chairman's Civic Service on Sunday 22 July 2012 at Capel Mair, Cardigan.	The Clerk to reply to the County Council confirming the attendance of the invitees.
52	Swansea Metropolitan University	Questionnaire regarding research carried out on Additional Community Governors.	The Clerk to deal with this.
53	Cantref	Notice of AGM Thursday 19 July 2012.	Noted.
54	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receipt of letter regarding the placing of a bin at Gwbert Viewpoint.	Noted.
55	Ceredigion County Council (Highways Department)	Response to complaints regarding the drive at Highcliff, Gwbert.	Copy of reply sent to the owner of Highcliff (see item 5)
56	Ceredigion County Council (Environmental Services and Housing)	Ceredigion Local Development Plan (2007-2022) Update.	Noted. The Clerk was asked to contact Mrs Doreen Thomas to ensure that she has received a copy of the update. (Cllr Auriol Williams declared interest and left the meeting))
57	Mr Wynne Evans	Letter regarding the placing of signs on the beach notifying that there are toilets at the Teifi Boating Club.	The Clerk was asked to contact the County Council regarding this matter. A copy of the letter sent to the CC has been forwarded to Mr Evans.

10. Other Matters

Village Renewal Fund: Suggestions:

Information Board to be located in the community.

Improvement to the entrance to Ferwig Old School.

The sub-committee has moved the project on. The Clerk was asked to contact One Voice Wales regarding directives on receiving a donation from "Hen Ysgol y Ferwig" towards widening the entrance at the school (**see Item 9, No 49**)

Cllr Auriol Williams stated that the sub-committee was in the process of forwarding a letter to Mr Neale Hinchcliffe underlining the proposals of the sub-committee in order to place an application with Balchder Pentrefi. He was also informed that an application would be forwarded to the County Council for permission to proceed, and to request a site meeting as soon as possible.

Rubbish left on the beach at Patch: The Clerk received a telephone call from a member of the public regarding bags of dog mess etc being dumped on the beach at Patch. The Chairman confirmed that he had visited the area and the Clerk was asked to contact the Dog Warden. He also visited the location and promised to contact the Clerk when he had more information. Cllr Haydn Lewis, Local County Council member, wrote to Afon Teifi Fairways (the Clerk has a copy of this letter). The Clerk again contacted the Dog Warden on 3 July. He stated that he was still awaiting information from the County Council and would contact the Clerk when any information came to hand.

Penyparc Noticeboard: Cllr Dilwyn Jenkins reported that the noticeboard at Penyparc needs repairs carried out on it. The Clerk was asked to contact Mr Dyfed Symmons.

Kiosks at Felinwynt and Gwbert: The Clerk was asked to place a sign in both kiosks notifying the public that they are no longer in service.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Hedge Trimming: Cllr Islwyn iago reported that he was concerned that a residue of trimmings remained on the highway after the vehicle's action. The Clerk was asked to write to the Highways department requesting them to ensure that the trimmings were cleared.

Llwynllwyd Fach/Lleine Price Junction: The Clerk was asked to contact the County Council regarding the potential hidden dangers facing drivers leaving Llwynllwyd Fach lane onto the road leading from Penyparc to Ferwig.

Nantycroi Caravan Park: Complaints have been received that excessive traffic are using the lane from Ferwig to the Nantycroi Caravan Park. It was agreed to ask the County Council to send a representative to explain the directives required for similar problems on country lanes.

Code of Conduct Session: Following his attendance at the session, Cllr Dilwyn Jenkins confirmed that he had benefited greatly from the experience. He encouraged members to read the Code of Conduct booklet distributed at the May meeting of the council.

Footpath from Gwbart Viewpoint to the Cliff Hotel: Following complaints received regarding overgrowth on the path, it was suggested that the Clerk contacts the County Council asking them to cut the grass on either side of the path.

Bridlepath between Llain y Cwm and Trecefn Isaf: Cllr Auriol Williams received complaints that this bridlepath was overgrown. The Clerk was asked to contact Mr John Morris who promised to deal with this immediately.

11. Date of next Council Meeting: 3 September, 2012 at 7.30pm at the Ystafell Berkley

Remaining Council Meetings 2012:

1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F).

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting